

# Bod yn Gymhorthydd Personol

## Gwasanaethau Cymdeithasol - Taliadau Uniongyrchol

Mae'r Cyngor yn darparu gofal cymdeithasol ar gyfer pobl sydd angen cefnogaeth adre neu yn y gymuned a gallant ddewis derbyn eu cefnogaeth mewn gwahanol ffordd.



About Us

Un ffordd yw cael taliad uniongyrchol. Mae hyn yn golygu fod y Cyngor yn rhoi arian i'r person i brynu eu cefnogaeth eu hunain.



Maent yn aml yn defnyddio'r arian yma i gyflogi eu cymhorthydd personol (PA) eu hunain. Mae'r Tîm Taliadau Uniongyrchol yn helpu pobl yr aseswyd fod ganddynt angen gofal cymdeithasol i gyflogi eu PA eu hunain.



Mae'r Tîm Taliadau Uniongyrchol yn cefnogi pobl drwy'r holl broses o recriwtio PA - o gyflwyno PA i'r person i'r PA yn dechrau gwaith.



Hoffech chi wybod mwy am ddod yn PA?  
Oes gennych chi hunangymhelliant?  
Oes gennych chi unrhyw brofiad mewn gofal cymdeithasol neu ofalu am rywun?



Ydych chi'n mwynhau gweithio a chymdeithasu gyda phobl yn eich ardal leol?  
Fyddech chi'n mwynhau gweithio'n hyblyg? E.e. dyddiau, gyda'r nos a/ neu benwythnosau.



**Os credwch fod hyn yn rhywbeth y gallech fod â diddordeb yno, yna dewch am sgwrs gydag aelod o'r Tîm Taliadau Uniongyrchol.**

Ffôn: (01495) 355265

E-bost: [directpayments@blaenau-gwent.gov.uk](mailto:directpayments@blaenau-gwent.gov.uk)